



Cyflwyniad

Os yw eich cynilion pensiwn yn fwy na'r terfyn y Lwfans Blynyddol (LB) mewn blwyddyn dreth berthnasol **ac** nid oes gennych ddigon o lwfans na ddefnyddiwyd o'r tair blynedd dreth flaenorol (a elwir yn 'cario ymlaen') i wrthbwyso yn erbyn y gormodedd, bydd gennych **gost LB**.

Os dyma'r achos, bydd rhaid i chi adrodd a thalu'r gost i Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi (CTHEM). I roi gwybod am y gost i CTHEM, bydd angen i chi gwblhau **ffurflen dreth Hunanasesiad**.

Ffurflen dreth Hunanasesiad

Mae'n rhaid i chi ddweud wrth CTHEM am eich cynilion pensiwn a rhwymedigaeth i'r gost LB drwy lenwi'r adran 'Cost treth arbedion pensiwn' ar y ffurflen dreth.

Os nid ydych yn cwblhau'r ffurflen ar-lein byddwch angen cwblhau ffurflen SA101. Cyfeirnod treth y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL) ydi 00329946RE.

Os nid ydych wedi cwblhau ffurflen dreth o'r blaen, bydd rhaid i chi gwblhau ffurflen cofrestru i adael CTHEM wybod am y newid ac i gael ffurflen dreth.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o:
www.gov.uk/register-forself-assessment

Cyfrifo'r tâl LB

Gellir cael manylion pellach yn 'Llawlyfr Treth Pensiwnau' o: www.gov.uk/hmrc-internal-manuals/pensions-tax-manual/ptm056110.

Lwfans Oes (LO)

Os yw eich buddion o'r Gronfa wedi cael eu gostwng oherwydd yr opsiwn Cynllun yn Talu, yna y gwerth llai a fydd wedyn yn cael ei brofi yn erbyn y LO.

Ni all y Gronfa roi unrhyw gyngor ariannol. Bydd angen i chi ystyried yr opsiwn gorau ar gyfer eich amgylchiadau personol. Dylech sicrhau eich bod yn deall y goblygiadau o wneud etholiad Cynllun yn Talu.

Argymhellir eich bod yn cael **Cyngor Ariannol Annibynnol** gan gynghorydd sy'n arbenigo yn y CPLIL. Gall y gwefan canlynol eich helpu i chwilio am ymgynghorydd yn eich ardal chi:
www.unbiased.co.uk

Talu'r gost

Gallwch naill ai dalu'r gost eich hun ar eich ffurflen hunanasesiad trethdalwr, neu yn amodol bod amodau penodol yn cael eu bodloni, ethol ar gyfer y Cynllun i dalu'r gost ar eich rhan gan ddefnyddio'r opsiwn **Cynllun yn Talu**.

Os byddwch yn dewis i dalu'r gost eich hun, byddai'n rhaid i chi fel arfer wneud hyn erbyn y dyddiad cau Taliadau Hunanasesu, sydd fel arfer yn **31 Ionawr** yn dilyn y flwyddyn dreth flaenorol. Fodd bynnag, os ydych yn talu'r gost yn uniongyrchol i Gyllid a Thollau EM ar-lein, y dyddiad cau yw **30 o Ragfyr**.

P'un ai a ydych yn talu'r gost eich hun neu eich bod yn dewis i'r Gronfa i dalu'r gost ar eich rhan o dan yr opsiwn Cynllun yn Talu, bydd rhaid i chi roi gwybod i CTHEM am eich cost LB ar eich ffurflen dreth Hunanasesu: ac os ydych yn ethol am yr opsiwn Cynllun yn Talu, dyled gadarnhau mae hyn yw eich bwriad.

Cynllun yn Talu

Gall gost LB fod yn eithaf sylweddol, ac felly os mae'n deillio o'ch cynilion pensiwn gyda'r Gronfa, gallwch ddewis cyfarfod y gost **gyfan neu ran** o'r gost, yn gyfnewid am **ostyngiad parhaol** i'ch pensiwn blynyddol.

Pe baech yn ethol i'r Gronfa i ond talu cyfran o'r gost, byddech wedyn yn talu gweddill o'r gost yn uniongyrchol i CTHEM. Felly nodwch nid oes rhaid i'ch etholiad Cynllun yn Talu fod am y swm llawn.

Os ydych yn meddwl y byddwch yn cael eich effeithio ac yn awyddus i ystyried yr opsiwn Cynllun yn Talu, cysylltwch â'r Gronfa mor fuan â phosib, gan mae terfynau amser caeth i'w dilyn.

Cyn y gellir ei gymhwyso, bydd rhaid i amodau cael eu bodloni a bydd rhaid i chi gwblhau hysbysiad etholiad LB Cynllun yn Talu. Unwaith y byddwch wedi gwneud cais dilys ar gyfer yr opsiwn Cynllun yn Talu, **ni ellir** ei ddirymu yn ddiweddarach.

Buddion Goroeswyr

Ni fydd unrhyw ddebyd Cynllun yn Talu yn effeithio ar unrhyw bensiwn Goroeswr, sy'n daladwy os byddwch farw i'ch priod, partner sifil cofrestredig neu bartner sy'n cyd-fyw cymwys (ac unrhyw blant cymwys).

Gwrthod Etholiad Cynllun yn Talu

Ni fyddai'r Gronfa yn talu'r gost LB ar eich rhan os:

- ◆ Nad ydych yn cwrdd â'r amodau Cynllun yn talu; neu
- ◆ Nid yw'r cyfan o'r gost LB yn ymwneud â'ch buddion yn y Gronfa; neu
- ◆ Nid yw rhybudd etholiad Cynllun yn Talu yn cael ei dderbyn o fewn y terfynau amser statudol penodedig; neu
- ◆ yw eich buddion pensiwn eisoes yn cael ei dalu gan y Gronfa; neu
- ◆ Ydych dros 75 mlwydd oed a ni dderbynwyd eich etholiad cyn eich pen-blwydd yn 75; neu
- ◆ Ydych wedi trosglwyddo buddion o'r Gronfa neu wedi cymryd ad-daliad o'ch cyfraniadau pensiwn; neu
- ◆ Nid oes gennych ddigon o bensiwn ar ol i dalu'r gost LB pan mae'r gostyngiad parhaol yn cael ei gymhwyso i'ch buddion.

Terfyn Amser Cais Cynllun yn Talu

Ni allwch wneud cais i ethol am Gynllun yn Talu cyn diwedd y flwyddyn treth ble mae'r gost LB yn digwydd (oni bai eich bod yn agosáu at ymdeol neu yn bwriadu trosglwyddo allan). Rhaid i chi wneud eich hysbysiad ddim hwyrach na **31 Gorffennaf** yn dilyn yr Ionawr ble oedd yn rhaid i'r gost LB cael ei ddatgan ar eich ffurflen dreth.

Blwyddyn Treth	Tâl LB yn cael ei adrodd	Dyddiad Cau
2017/18	31 Ion 2019	31 Gorff 2019
2018/19	31 Ion 2020	31 Gorff 2020
2019/20	31 Ion 2021	31 Gorff 2021

Os byddwch yn ymdeol ac yn dod yn gymwys i dderbyn eich holl fuddion yn y Gronfa, bydd rhaid i chi roi gwybod i'r Gronfa ymhell cyn eich dyddiad ymdeoliad, fel bod eich etholiad ar ffeil cyn i ni brosesu eich buddion. Os ydych yn trosglwyddo buddion o'r Gronfa, rhaid i'ch etholiad cael ei dderbyn cyn y gwneir y taliad. Rhaid i chi hefyd roi gwybod i'r Gronfa am eich etholiad cyn i chi gyrraedd 75 mlwydd oed (yn enwedig os byddwch yn cyrraedd oed 75 yn ystod y flwyddyn dreth y mae eich rhwymedigaeth yn berthnasol).

Mae'r ffeithlen hon yn seiliedig ar ein dealltwriaeth bresennol o reolau'r Cynllun yn Talu (fel ar fis **Ebrill 2019**). Mae'r daflen hon er gwybodaeth yn unig ac nid yw'n cwmpasu pob amgylchiadau personol. Mae'r materion dan sylw yn gymhleth a ni fydd y Gronfa yn darparu unrhyw arweiniad neu gyngor personol.